# CYNGOR CYMUNED *LLANWINIO* COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod Cyffredinol Blynyddol o Gyngor Cymuned Llanwinio ar nos Fawrth 16eg o Fai 2017 am 8.00yh yn Neuadd Gymuned Llanwinio.

Gan taw hwn oedd y cyfarfod cyntaf ers yr etholiad diwrthwynebiad fe wnaeth pob cynghorwr arwyddo'r Datganiad o Dderbyn Swydd a chytuno i gadw at y Côd Ymddygiad.

**PRESENNOL:** Cyng P Walton, W Evans, J Phillips, H James, G Evans, D Lewis, J Lewis (CSC) a K Bowen (clerc).

**COFNODION:** Darllenwyd cofnodion y CCB Mai 17eg 2016 blaenorol a derbyniwyd yn gywir.

**ADRODDIAD ARIANNOL**:

Trafododd y cynghorwyr yr adroddiad ariannol.

Cyfrif Trysorydd £651.52

Cyfrif Busnes £3520.15

Gwnaeth y Cyngor gymeradwyo yr adroddiad ariannol am y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2017.

**ETHOL CADEIRYDD:**

Etholwyd Cyng J Phillips yn Gadeirydd gan y cynghorwyr.

**ETHOL IS-GADEIRYDD**:

Etholwyd Cyng H James yn Is-Gadeirydd gan y cynghorwyr.

**CYFLOG Y CLERC:**

Ar gais y Cadeirydd fe wnaeth y clerc adael yr ystafell yn ystod y drafodaeth ynglyn a chyflog y clerc. Wedi ail-ymuno a'r cyfarfod fe hysbyswyd y clerc fod cyflog y clerc i'w godi 1% i £909 y flwyddyn, i ddod yn effeithiol o Fai 2017.

**ASESIAD RISG:**

Adolygwyd yr asesiad risg gan y Cyngor. Adroddodd Cyng P Walton fod un o'r ddau fater a sylwyd arno llynedd wedi ei ddatrys. Yr unig fater heb ei ddelio efo oedd diogelwch dogfennau. Adroddodd y clerc fod ffon gof wedi ei archebu i storio dogfennau electronig ond fod eisiau cadarnhau maint mewnol y gist atal tân cyn ei phrynu.